

Canllawiau Mapio Risg

Yn rhan o reoliadau Atal Llygredd Amaethyddol 2021, mae'n ofynnol i bob busnes fferm sy'n taenu tail organig greu Map Risg o 1 Ionawr 2023. Bydd yn rhaid i chi greu a chynnal "map risg" o'ch *daliad* fel a amlinellir isod:

Cam 1 – Y Daliad - byddwch angen map (mae graddfeydd 1:2,500, 1:5,000 neu 1:10,000 yn addas) o'ch *daliad* sy'n dangos:

- pob cae a phob *gwrs dŵr* (yn cynnwys ffosydd);
- arwynebedd pob cae mewn hectarau; ac
- unrhyw dyllau turio, ffynnon neu bydew (gan gynnwys rhai ar dir cyfagos o fewn 50m i'ch ffin chi).

Cam 2 – Nodi cyrsiau dŵr – Hanfodol – marciwch mewn lliw coch yr ardaloedd lle mae'r Rheoliadau'n gwahardd *taenu tail organig*:

- o fewn 10 metr i'r naill ochr o unrhyw *gwrs dŵr* (gan gynnwys ffosydd). Os ydych chi'n bwriadu taenu tail organig gan ddefnyddio *cyfarpar taenu manwl* 6 i 10 metr o *gwrs dŵr*, dylech groeslinellu'r parth hwn dros yr ardaloedd sydd wedi'u lliwio'n goch; ac
- o fewn 50 metr i unrhyw ffynnon, pydew neu dwll turio.

Cam 3 – Nodi mathau o dir – Hanfodol – marciwch mewn lliw oren yr ardaloedd mae'r Rheoliadau angen i chi asesu'r risgiau yn ymwneud â *thaenu tail organig*:

- ardaloedd â phridd *tywodlyd* neu *fas*;
- tir â llethr sy'n fwy na 12° (sy'n cyfateb i "20%" neu "1 mewn 5");
- ardaloedd â draenau tir (heblaw pibellau anhydraidd wedi'u selio).

Marciwch mewn lliwiau o'ch dewis chi, y nodweddion canlynol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau y:

- safleoedd sy'n addas ar gyfer lleoli tomenni caeau dros dro, os yw'r dull hwn o storio tail i'w ddefnyddio, a
- tir sydd â risg isel o ddŵr ffo os defnyddir y tir yma ar gyfer cyfrifo gofynion storio slyri.

Cam 4 – Nodi nodweddion eraill - Dewisol: Gallwch farcio hefyd mewn lliw coch yr ardaloedd eraill lle na fyddai **byth** yn briodol *taenu tail organig gan gynnwys*:

- unrhyw ardaloedd lle na chaniateir i chi *daenu* am resymau megis cytundeb tenantiaeth, *hysbysiad* atal oherwydd yr arogl, neu ddynodiad (e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig);
- ardaloedd yn y categori "cynefin bywyd gwyllt" o dan gytundeb amaeth-amgylcheddol (e.e. Glastir), ynghyd ag unrhyw ardaloedd eraill lle mae cytundeb yn gwahardd *taenu* (e.e. tir ag ychydig iawn o fewnbynau);
- ardaloedd lle mae'r wyneb yn greigiog neu'n anwastad fel na ellir defnyddio offer yn effeithiol nac yn ddiogel; a
- chaeau neu rannau o gaeau sydd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi'u draenio â phibellau, eu twrch-ddraenio neu sydd â'u hisbridd uwchben draenau

Amlinellwch ffiniau ardaloedd eraill lle na fydddech fel arfer yn *taenu* a gadewch yr ardaloedd yma yn wyn:

- ardaloedd sy'n atodol i ffermio (e.e. adeiladau, llwybrau, ffyrdd);
- ardaloedd o goetir neu berllannau; ac
- ardaloedd sy'n anaddas oherwydd eu lleoliad (e.e. yn rhy bell o'r fferm) ac nad ydynt fel arfer yn cael eu defnyddio am resymau gweithredol, ond y gellid eu defnyddio rywbryd yn y dyfodol.

Cam 5 - Nodweddion o'ch Cynllun Rheoli Maetholion – Dewisol - gallwch gwblhau eich map risg drwy gynnwys ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn gyffredinol mewn cynlluniau rheoli maetholion. Dim ond o dan amodau penodol neu lle y dylid cyfyngu ar gyfraddau y gellir *taenu* yn yr ardaloedd hyn. Bydd rhai rhannau o'r fferm yn anaddas ar gyfer *taenu* ar adegau penodol o'r flwyddyn, yn enwedig yn y gaeaf. Gallai'r rhain amrywio o flwyddyn i flwyddyn, **ond rhaid i chi gadw mewn cof y "cyfnodau gwaharddedig"** Rheoleiddiol pan na chaniateir ychwanegu unrhyw fath o *dail organig* â mwy na 30% o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd e.e. *slyri* neu *dofednod* at unrhyw dir.